

## Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Preswyl

**Cyflog:** £151,497

**Lleoliad:** Cymru a Teesside

Gofynnwyd i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (JAC) adnabod dau ymgeisydd i'w hargymell ar gyfer y swydd Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Preswyl, Llysoedd y Goron Caerdydd, Casnewydd a Merthyr Tudful (Cofiadur Caerdydd) a'r swydd Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Preswyl, Teesside.

### Pwy all wneud cais

Mae'r ymarfer hwn yn agored i:

- Farnwyr Cylchdaith
- Cyfreithwyr a Bargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr sydd ag o leiaf 7 blynedd o brofiad cyfreithiol ar ôl cymhwyso
- Cofiaduron
- a'r rhai hynny sydd wedi bod yn ddeilydd un o'r swyddi a restrir yn [Rhan 1A Atodlen 2 Deddf Llysoedd 1971](#) ar sail llawn amser am o leiaf 3 blynedd

### Meini prawf ychwanegol

Disgwylir i ymgeiswyr fod â phrofiad barnwrol blaenorol, yn eistedd fel barnwr cyflogedig neu farnwr sy'n derbyn ffi, neu rôl debyg, fel cadeirydd sefydliad cyfwerth lle mae meddu ar gymhwyster cyfreithiol yn ofynnol.

Sefydliad cyfwerth yw sefydliad o natur qwasï-farnwrol, lle mae'r pwerau a'r gweithdrefnau yn debyg i'r rhai a geir mewn llys barn ac sy'n ymwneud â materion cymhleth iawn, sy'n gofyn i'w aelodau ganfod y ffeithiau mewn ffordd wrthrychol a dod i gasgliadau i allu gwneud penderfyniad rhesymegol. Gall penderfyniadau o'r fath arwain at orfodi dirwy, ac maent yn debygol o effeithio ar hawliau cyfreithiol, dyletswyddau neu freintiau partion penodol. Mae enghreifftiau yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- a) Crwner
- b) Tribiwnlysoedd disgyblu a gwrandawïadau ymddygiad ar gyfer cyrff safonau proffesiynol
- c) Cyflafareddu
- d) Bwrdd Parôl
- e) Cadeirydd ymchwiliad statudol

Hyd gofynnol y profiad barnwrol yw o leiaf 30 diwrnod eistedd llawn ers cael eich penodi, heb gynnwys dyddiau hyfforddiant neu absenoldebau salwch.

Bydd eithriad ond yn cael ei ganiatáu mewn amgylchiadau eithriadol ac os bydd yr ymgeisydd dan sylw wedi dangos y sgiliau angenrheidiol mewn ffordd arwyddocaol arall.

Mae angen i ymgeiswyr am swyddi yng Nghymru feddu ar ddealltwriaeth, neu'r gallu i ennill dealltwriaeth, o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru a threfniadau datganoli Cymru.

Mae'r Comisiwn yn annog amrywiaeth ac yn croesawu ceisiadau gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn y farnwriaeth ar hyn o bryd. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a bydd unrhyw argymhellion a wneir i benodi yn seiliedig ar deilyngdod yn unig.

### **Gwybodaeth am y rôl**

Mae gan bob Llys y Goron Farnwr Preswyl, sy'n gyfrifol am arwain y farnwriaeth yn y llys a sicrhau bod busnes barnwrol yn cael ei gynnal yn effeithlon ac yn effeithiol.

Trwy Farnwyr Llywyddol y Gylchdaith, mae Barnwyr Preswyl yn cynorthwyo'r Arglwydd Brif Ustus gyda'i ddyletswydd gyffredinol o gynrychioli safbwyntiau'r farnwriaeth; cynnal trefniadau priodol ar gyfer hyfforddi a chyfarwyddo aelodau'r farnwriaeth a gofalu am eu lles; a chynnal trefniadau ar gyfer lleoli'r farnwriaeth a dyrannu gwaith o fewn y llysoedd.

Mae Barnwyr Preswyl yn gyfrifol am sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli'n effeithiol o fewn y ganolfan llys, ynghyd â rheoli achosion a baich achosion eu hunain. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda barnwyr eraill yn y ganolfan llys i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r canllawiau a'r arferion da cyfredol a sicrhau cymryd camau gweithredu i wella perfformiad i alluogi'r llys i gyflawni ei waith yn brydlon ac yn effeithiol.

### **Gwybodaeth am y Llysoedd**

Mae llwyth achosion cyfunol Llysoedd y Goron Caerdydd, Casnewydd a Merthyr Tudful yn cynrychioli tua hanner o'r holl achosion troseddol yng Nghymru. Mae'r gwaith yn cynnwys troseddau difrifol, cymhleth ac achosion lle mae nifer o unigolion wedi cyflawni'r drosedd.

Teesside yw'r pedwerydd Llys y Goron mwyaf yng Nghylchdaith Gogledd Ddwyrain Lloegr, ac mae'r baich gwaith yn cynnwys troseddau difrifol cymhleth ac achosion lle mae nifer o unigolion wedi cyflawni'r drosedd. Hefyd, mae'n gweithredu fel canolfan Cylchdaith Gogledd Ddwyrain Lloegr ar gyfer Gorchmynion Ymchwiliadau Ewropeaidd.

[Cofrestrwch](#) i gael hysbysiadau trwy e-bost ynghylch cynnydd yr ymarfer hwn.